

LLYWODRAETH CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 3)

Mae arolygydd Iechyd planhigion a benodwyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") wedi cadarnhau presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar fangre yn siroedd **Powys**.

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rhoddaf yr hysbysiad a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r hysbysiad hwn yw Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis* 03) (Cymru), a
2. Gan gael effaith o 22 Ebrill 2022 ymlaen, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 3) a wnaed ar 15 Mawrth 2022.

Ardal a ddarnodir

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd **Powys** o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi ei darnodi.

Cyfyngu ar gwmpo deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau heb hysbysiad ymlaen llaw

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) y Rheoliadau, mae'n rhaid i berson hysbysu'r Comisiwn Coedwigaeth ymlaen llaw yn ysgrifenedig ynghylch eu bwriad i gwmpo unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn yr ardal a ddarnodir.

Gwahardd symud deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

5. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o'r ardal a ddarnodir a bennir yn yr hysbysiad hwn, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan arolygydd Iechyd Planhigion.

Deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau

6. At ddibenion paragraffau 4 a 5 uchod, ystyr deunydd perthnasol sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yw:

(a) y deunydd a ganlyn sydd wedi tarddu o fewn yr ardal a ddarnodir –

- i. unrhyw bren o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**, ac eithrio ar ffurf deunydd pecynnu pren neu bacin;
- ii. unrhyw risgl ynysedig o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus**;
- iii. unrhyw goed o'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** gan gynnwys coed a gwmpwyd neu goed a syrthiodd, ffrwythau, hadau, dail neu ddeiliant.

(b) unrhyw blanhigion ar gyfer plannu'r genws **Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpus** sydd wedi tarddu neu sy'n byw o fewn yr ardal a ddarnodir.

Cychwyn y gwaharddiad

7. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn gymwys ar **22 Ebrill 2022** ac ar ôl hynny hyd nes y rhoddir hysbysiad pellach.

Llofnodwyd



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **22 Ebrill 2022**

ATODIAD 1

Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r ffin yn dechrau yn SO115640, Pen-y-bont, wrth y gyffordd rhwng yr A44 a'r A488. Mae'r ffin yn dilyn yr A40 tuag at y Groes am 1km, gan groesi pont dros Afon Ithon.

Yn SO106645 mae'r ffin yn gadael yr A40 ac yn dilyn ffordd ddiddosbarth am 10.4km tua'r gogledd-ddwyrain nes iddo gyrraedd SO175716, Gorsaf Drenau Heol Llanbister.

O SO175716 mae'r rheilffordd i'r gogledd-orllewin o'r ffin. Mae'r ffin yn dilyn y ffordd ddiddosbarth am 1.5km arall. Yn SO188721 mae'r ffin yn gadael y ffordd ddiddosbarth ac yn ymuno â'r B4356 sy'n mynd i'r dwyrain tuag at Langynllo. Mae'r ffin yn dilyn y B4356 am 6.4km i Monaughty gan fynd drwy Langynllo, mae Afon Llugwy ochr yn ochr â'r B4356. Yn SO238689 mae'r ffin yn ymuno â'r A488 tua'r de i Fleddfa am 300m.

Mae'r ffin yn cyrraedd cyffordd yn SO238685. Yn y pwynt hwn mae'r ffin yn gadael yr A488 ac yn dilyn y B4356 am 3.8km i SO271672 yn Hwytyn. O SO271672 mae'r ffin yn gadael y B4356 ac yn dilyn y B4357 dros y bont dros Afon Llugwy am 10km gan fynd drwy Kinnerton i SO208606, Maesyfed.

Yn SO208606 ym Maesyfed mae'r ffin yn gadael y B4357 ac yn dilyn yr A44 am 15km gan deithio drwy Lanfihangel Nant Melan a Llandegley cyn cyrraedd SO115640, Pen-y-bont.